Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/*Clerk*: Fflur Lawlor
E-bost/*E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron / *Tregaron Town Council Meeting*
Nos Lun / *Monday* 17.01.2022

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / *Memorial Hall*

COFNODION MIS IONAWR / *JANUARY MEETING MINUTES*

	Eitem / *Item*	Gweithred / *Action*
1.	**CROESO / WELCOME** Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol y Cyngor. *The Chairman welcomed all members present, to the monthly meeting.* PRESENNOL / PRESENT: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes (Cadeirydd/*Chair*), Cyng/*Cllr* Arwel Jones, Evan Jones, Rhian Jones, Alun Owen, Laura Sherman, June Owens, Ann Jones & Owain Pugh Cyng Rhydian Wilson yn bresennol i drafod eitem 8.3 Archebiant – trafodwyd hwn yn gyntaf ar yr agenda. *Cllr Rhydian Wilson was present to discuss item 8.3 Precept - this was discussed first on the agenda*. Clerc / *Clerk* – Fflur Lawlor	
2.	**YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES** Cyng/*Cllrs*. Rhydian Wilson, Gwilym Jenkins	
3.	**MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS** Diolchodd y Cadeirydd i bawb am yr help i dynnu coed Nadolig y dref i lawr. Mae casgliad i Latch ac Ysbyty Arch Noa bellach wedi ei gasglu o Caron Stores – estynnwyd diolch iddynt am gadw'r casgliad am fis yn y siop. Cyfanswm y casgliad yw £412, bydd y swm yn cael ei wneud fyny i £500 o lwfans y Cadeirydd. *The Chair thanked everyone for the help to take down the town Christmas trees.* *A collection for Latch and Noah's Ark Hospital has now been collected from Caron Stores – thanks was extended to them for keeping the collection for the month of December. The total raised was £412, the amount will be made up to £500 from the Chairman's allowance.*	
4.	**ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT** Ni allai PC John Evans fynychu'r cyfarfod ond darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth. Dim i'w gofnodi mis yma. Mae'r Cyng Owain Pugh yn poeni am gyflymder ceir sy'n mynd i mewn ac allan o'r dref ar y ffordd B434 Pontrhydfendigaid. Clerc i godi hyn gyda PC Evans.	

	PC John Evans could not attend the meeting the Clerk read out an email sent with information. Nothing to report this month. *Cllr Owain Pugh is concerned about the speed of cars entering and leaving the town on the B434 Pontrhydfendigaid road. Clerk to raise this with PC Evans.*	
5.	**DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST** Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb yn y pwnc Cynllunio. *Cllr Catherine Hughes declaring an interest in the subject of Planning.*	
6.	**CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 20.12.21** Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. *It was agreed that this was a true record of the minutes.* Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Rhian Jones Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones	
7.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES** Tudalen/*Page* 2 – 10 – Mae'r Clerc wedi cysylltu â CSC - byddant yn ymweld â'r dref yn rheolaidd o hyn ymlaen, yn y bore a'r prynhawn. *Clerk has contacted CCC - they will be visiting the town on a regular basis from now on, in the morning and afternoon* Tudalen/Page 3 – 9 – Cais Grant Cyfle Chwarae wedi bod yn llwyddiannus, £10,000. Aros am bris gan Deian Rees – gall cychwyn y gwaith ar Ebrill 4ydd. Bydd rhaid cau y parc am wythnos. *Play Opportunity Grant application successful, £ 10,000* *Awaiting quote from Deian Rees – he's able to start the work on April 4th. The park will have to be closed for a week.* Tudalen/Page 4 – 18.1 – Ynghylch 'PAYE' - mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau, manylion isod. ▪ PJE – cost sefydlu o £150 / ffi blynyddol o £420 ▪ Llywela Thomas Bookeeping - cost sefydlu o £75 / ffi blynyddol o £195 Cytunwyd i'r Clerc I .edrych am ragor o ddyfynbrisiau. *With regards to the 'PAYE' - the Clerk has made enquiries, details below* ▪ *PJE – £150 set up cost / £420 annual fee.* ▪ *Llywela Thomas Bookeeping - £75 set up cost / £195 annual fee.* *All were in agreement for the Clerk to look again for more quotes.* Tudalen/Page 5 – 18. 3 – Trafodwyd gohirio cael Lorna Brazell, Ymddiriedolwr Cymdeithas Mynyddoedd Cambria i ddod i wneud cyflwyniad am y tro, pawb yn gytun. *It was decided after a discussion to not ask Lorna Brazell, Trustee of the Cambrian Mountains Society to come to present at this time, all in agreement.* Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Evan Jones Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* June Owens	Clerc / *Clerk*

	19.1 – Nid yw'r staff banc presennol am barhau i wneud y gwaith a gan nad ydynt wedi ymddiswyddo'n swyddogol o'r swydd nid yw'n bosib i gyflogi rhywun arall. Unwaith y byddant yn ymddiswyddo, gellir llenwi'r swydd. *The current bank staff they have, does not wish to continue in the role but hasn't officially resigned from the post. Once they resign, the post can be filled.*	
8.	**CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS** 8.1 – Balans y Banc / Bank Balance – • Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £43,903.59 • Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £11,922.15 • Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Current (Cadeirydd / *Chairman*) – £3,064.90 • Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (*Gratuity*) – £195.12 8.2 Taliadau Mis Hydref / October payments – • Cyflog y Gweithiwr Strydlun (Hydref) £208.80 *Street Scene Worker Salary (October)* • Cyflog y Clerc (Hydref) / *Clerk's Salary (October)* £216.00 • HMRC NIC/TAX Mis Hydref / *Month* of October £106.20 • Argraffwyr Lewis + Hughes (posteri dathliadau Nadolig 2021) £8.80 • Argraffwyr Lewis + Hughes (Public Notices Close Square 12/2021) £9.60 • Smith of Derby (Cloc Neuadd Goffa / Memorial Hall Clock) £300.00 • Fflur Lawlor (Golau ar gyfer coed Nadolig / Christmas Tree Lights+Batteries) £55.05 Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Alun Owen 8.3 ARCHEBIANT / PRESEPT – 2022-2023 Cyflwynodd y Clerc wybodaeth am y sefyllfa ariannol diweddaraf a'r gyllideb am 2022/23. Cynhaliwyd trafodaeth a phenderfynwyd cadw archebiant 2022/2023 yn £24,000 gyda unrhyw ddifyg yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn. *The Clerk presented an update on the financial position and a budget for 2022/23.* *A discussion was held and it was decided to keep the 2022/2023 precept at £24,000 and any deficit being funded from reserves.* Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Rhydian Wilson Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Evan Jones 8.4 Cynhaliwyd trafodaeth a phenderfynwyd i'r Clerc symud arian o'r cyfrif cyfredol (bod y balans ar 31/03/22 o dan £24,000) i'r cyfrif wrth gefn a symud £500 i gyfrif y Cadeirydd. *A discussion was held and it was resolved that the Clerk is to move money from the current account (the balance to be below £24,000 on 31/03/22) to the reserve account and £500 to the Chairman's account.* Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Evan Jones	Clerc / *Clerk*

	Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Rhydian Wilson	
9.	**ADRODDIAD YR IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORT** <u>Is-bwyllgor Parc / Blodau</u> Gwiriadau misol Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau dros y gaeaf - bydd y Cyng Rhian Jones yn cynnal y gwiriadau y mis hwn a Cyng June Owens i wneud yn Chwefror/Mawrth - Clerc i e-bostio pawb gyda'r ffurflen. Diolchwyd i Cyng Catherine Hughes am wneud mis diwethaf. Mae angen peth gwaith i'r Ffrâm Weithgaredd – Cyng Owain Pugh i gael golwg a gwneud y gwaith. Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad bod y cais am grant i'r Cynllun Grant Cyfle Chwarae Chwarae Cymru Gyfan wedi bod yn llwyddiannus am £10,000. Diolchodd y Cyng Catherine Hughes i bawb a helpodd gyda chwblhau'r ceisiadau grant. Dywedodd y Cyng Arwel Jones fod yna 2 fainc blastig yn y sied yn y Mart - angen penderfynu ble i roi rhain. <u>*Park / Flowers Sub-Committee*</u> *Monthly Health & Safety checks of the Park to continue over the winter – Cllr Rhian Jones will carry out the checks this month and Cllr June Owens to do in February/March – Clerk to email all with the form. Thanks was extended to Cllr Catherine Hughes for doing last month. Some work needs to be done to the Activity Frame – Cllr Owain Pugh to have a look and carry out the work.* *The Clerk has received confirmation that the grant application to the All Wales Play Opportunity Grant has been successful for £10,000. Cllr Catherine Hughes thanked all that helped out with completing the grant applications.* *Cllr Arwel Jones pointed out that there are 2 plastic benches in the shed in the Mart - need to decided where to put these* <u>Is-bwyllgor Cynllun Lle</u> Mae y Cyng Catherine Hughes, y Cyng Rhydian Wilson a'r Clerc wedi cwrdd â Catrin Cond a Sarah Smith, Cyngor Sir Ceredigion o ran symud ymlaen gyda'r Cynllun Lle. Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. <u>*Place Plan Sub-Committee*</u> *Cllr Catherine Hughes, Cllr Rhydian Wilson and the Clerk met with Catrin Cond and Sarah Smith, Ceredigion County Council with regards to moving forward with the Place Plan. Another meeting will take place within the next few months.*	Cyng / *Cllr* Rhian Jones Clerc / Clerk Cyng / *Cllr* Owain Pugh
10.	**ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT** Clerc wedi cwrdd â'r Gweithiwr Strydlun i drafod - • Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road • Glanhau strydoedd eraill yn eu tro *Clerk has met with the Street Scene Worker to discuss the following –* • *Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road* • *Other streets to be cleaned in rotation*	Clerc / Clerk
11.	**CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS** Y Cyng Catherine Hughes yn datgan diddordeb ym mhob cais cynllunio. *Cllr Catherine Hughes declaring an interest in all planning applications.* Cylchredwyd y cais isod i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. *The below application was circulated to Councillors prior to the meeting.*	

	• Rhif y Cais / *Application:* A210921 Ymgeisydd / *Applicant*: Ms M Price Safle / *Site*: Llwyngaru Barn, Tregaron, SY25 6NN Y bwriad / *Intention*: Single Storey Oak Framed Extension Sylwadau - dim sylwadau / dim gwrthwynebiad *Comments – no comments / no objections*	
12.	**CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING PERSMISSION** Dim i'w gofnodi. *Nothing to report.*	
13.	**CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL** Gwybodaeth isod wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. *Below information was sent to Councillors prior to meeting.* • 13.12.2021 – 2022-23 Precept • 21.12.21 – Casgliad Gwastraff / *Waste Collection* • 22.12.21 – Cronfa Grant Leader *Grant Scheme* • 23.12.21 – Ymgynhoriad ar yr Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol Draft / *Consultation on the draft Ceredigion Assessment of Local Well-being* • 17.01.22 – Cau Ffordd ar Brys / *Emergency Road Closure*: B4342 Stags Head, Tregaron	
14.	**UN LLAIS CYMRU / *ONE VOICE WALES*** Gwybodaeth Un Llais Cymru wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. *One Voice Wales information received was sent to Councillors prior to meeting.*	
15.	**PROSIECT CYLCH CARON PROJECT** Prosiect yn symud yn ei flaen. *Project moving forward.*	
16.	**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU** Mae'r Eisteddfod yn mynd ymlaen yn 2022. Bydd angen sefydlu pwyllgor gyda'r Cyngor Sir i drafod a threfnu pa welliannau y mae'n rhaid eu gwneud yn y dref. Hefyd, mae angen cynnal trafodaethau â busnesau lleol ynghylch yr Eisteddfod. *The Eisteddfod is going ahead in 2022.* *There will be a need to establish a committee with the County Council to discuss and arrange what improvements need to be done in the town. Also, discussions need to be held with local businesses regarding the Eisteddfod.*	
17.	**PROSIECT BWRDD DIGIDOL / DIGITAL BOARD PROJECT** Mae'r gwaith ar gasglu gwybodaeth i'w harddangos ar y bwrdd yn mynd yn ei flaen. Cytunwyd bod yn rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir i'w harddangos ar y bwrdd fod yn ddwyieithog. Mae angen drafftio dogfennau fel prisiau hysbysebion busnes, telerau ac amodau ac ymwadiad - i'w trafod gan bwyllgor y bwrdd digidol. *Work is being done on collecting information to be displayed on the board.* *It was agreed that all information provided to be displayed on the board has to be bilingual. Documents such as business advert prices, terms and conditions and a disclaimer needs to be drafted - to be discussed by the digital board committee.*	Clerc / *Clerk* Cyng / *Cllr* Catherine Hughes Arwel Jones Rhydian Wilson
18.	**GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE** 18.1 – E-bost wrth Dafydd Morgan, Menter Mynyddoedd y Cambrian CIC - Cyfle i gydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru - cynnig syniadau ar gyfer defnydd o'r darn tir wrth ymyl ar Afon Brennig yn Nhregaron (SN 68208 59773). Ar ôl trafod, penderfynwyd gwahodd Neil Stoddart, Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod mis Chwefror i drafod ymhellach. *E-mail from Dafydd Morgan, Cambrian Mountains Initiative CIC - Opportunity to work with Natural Resources Wales - propose ideas for use of adjacent land on the River Brennig in*	Clerc/*Clerk*

	Tregaron (SN 68208 59773). Following discussion, it was decided to invite Neil Stoddart, Natural Resources Wales to the February meeting to discuss further. 18.2 – E-bost oddi wrth Elin Jones AS a Cefin Campbell AS mewn ymateb i'n llythyr ynglŷn â'r ceisiadau plannu coed yn ddiweddar a'r rheolau ffosffadau i gynllunio – roedd Elin Jones yn cynnig cyfarfod gyda Ben Lake AS a hithau, ond roedd pawb yn gytûn nid oes ei angen ar hyn o bryd. *Email from Elin Jones AS and Cefin Campbell AS in response to our letter with regards to the tree planting applications recently and the phosphates regulations to planning - Elin Jones was offering a zoom meeting with Ben Lake MP and herself, but all were in agreement this was not needed at this time.*	
19.	**UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS** 19.1 – <u>Cyng/*Cllr* June Owens</u> – Mae angen torri coed ar hyd Ffordd Llambed - Clerc i ddarganfod pwy sydd berchen y tir. *Trees need to be cut along Lampeter Road - Clerk to find out who owns the land.* <u>Cyng/*Cllr* Owain Pugh</u> – Bydd angen torri cae'r parc cyn bo hir, a fydd y Cyngor Sir yn gwneud hyn - angen gwneud yn siwr ei fod wedi ei wneud a ddim yn cael ei adael fel llynedd. Clerc i gysylltu â CSC drwy CLIC. *The park field will need to be cut before long, will the County Council be doing this - need to make sure it's done and not left like last year. Clerk to contact CCC via CLIC.* 19.2 – Biniau graean – angen ail lenwi rhai o'r biniau. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn beth yw'r polisi am lenwi y biniau. *Grit bins – some of the bins need to be filled. Clerk to contact the County Council to ask what the policy is about filling the bins.* 19.3 – Pugh Computers Ltd – Pris ar gyfer 'Microsoft 365 Business Standard' am y 12 mis nesaf - £135.36 *Pugh Computers Ltd – Quote for Microsoft 365 Business Standard for the next 12 months - £135.36* 19.4 – Clerc wedi derbyn e-bost gan CSC ynglŷn â'r goleuadau o amgylch cerflun Henry Richard a'r Neuadd Goffa – byddant yn newid goleuadau Henry Richard yn y misoedd nesaf, ond nid y Neuadd Goffa – bydd y rhain yn cael eu gwneud pan fydd arian ar gael. Hefyd byddant yn newid y goleuadau stryd o'r Sgwâr hyd at gyferbyn â'r Llew Coch. Clerk received an email from CCC with regards to the lights around Henry Richard statue and the Memorial Hall – they will be replacing the Henry Richard lights in the coming months, but not the Memorial Hall – these will be done when finances are available. Also they will be replacing the street lights from the Square along the road to opposite the Llew Coch.	Clerc/*Clerk* Clerc/*Clerk* Clerc/*Clerk*
20.	Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 21ain Chwefror 2022 am 7.00pm. *The next monthly meeting will be held on Monday 21st February 2022 at 7.00pm.*	
	Terfynwyd y cyfarfod / *Meeting was closed*	